**Papur a gafodd ei gyflwyno yn y Cyngor Llawn ar y 9fed Rhagfyr 2010**

## Rhif yr eitem ar y rhaglen 9

# Polisi Dros Dro Tai – Safleoedd Mawr

## Newid pellach i'r polisi

**POLISI DROS DRO TAI – SAFLEOEDD MAWR**

**<u>Newid Pellach i'r Polisi</u>**

Wedi trafodaethau rhwng ymgynghorwyr Asesiad Cynaladwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) y Cyngor (Enfusion) a CCGC fe gafodd Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei baratoi.

Mae yna fân newidiadau yn cael eu cynnig i'r polisi a'r cyfiawnhad rhesymedig ac mae'r rhain wedi cael eu hamlinellu yn y tabl isod:

| Rhan o'r Polisi i'w Diwygio | Geirfa yn yr Adroddiad Gwreiddiol i'r Cyngor Llawn | Argymhellion am Newid Pellach i'r polisi (geirfa ychwanegol mewn DU TRWM) |
|---|---|---|
| Maen prawf (vi) yn y Polisi | (vi) Bod y safle'n cael ei ystyried yn addas fel estyniad i'r anheddiad **ac na fyddai'n cael effaith annerbyniol ar ddiddordebau bioamrywiaeth a chysylltiadau**, tirwedd **ac amgylchedd**. | (vi) Bod y safle'n cael **ei asesu ar gyfer ei addasrwydd** fel estyniad i'r anheddiad **yn nhermau** diddordebau bioamrywiaeth **(yn cynnwys cysylltedd)** ac effaith **ehangach** amgylcheddol/**cynaliadwyaeth.** |
| Paragraff 21 (Cyfiawnhad Rhesymedig i faen prawf (iv)) | Dim newid i'r eirfa bresennol. | Ychwanegu'r frawddeg ganlynol ar ddiwedd yr eirfa bresennol:<br><br>**Yn unol â gofynion cyfreithiol dan y Rheoliadau Cynefinoedd ac mewn ymgynghoriad gyda CCGC, AAC a Dwr Cymru, rhaid i gynigion datblygu sicrhau** |

| Rhan o'r Polisi i'w Diwygio | Geirfa yn yr Adroddiad Gwreiddiol i'r Cyngor Llawn | Argymhellion am Newid Pellach i'r polisi (geirfa ychwanegol mewn DU TRWM) |
|---|---|---|
| | | **bod modd cyflenwi'n gynaliadwy'r cyflenwad dwr sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad (a heb effaith andwyol ar safleoedd Ewropeaidd).** |
| Paragraff 27 (Cyfiawnhad Rhesymedig i faen prawf (vi)) | Bydd raid cael adroddiad cynaliadwyaeth i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fydd y gwaith o ddatblygu'r safle arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu ar ddynodiad penodol. **Mewn lleoliadau sensitif efallai y bydd gofyn gwneud gwaith sgrinio ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac/neu adroddiad ecolegol ar rywogaethau a ddiogelir/cynefinoedd [o bosibl yn cynnwys cyfeiriad at y gofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol a chadarnhad am yr agwedd hon am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd tra'n disgwyl am atborth Enfusion].** | Bydd raid cael adroddiad cynaliadwyaeth i fodloni'r Awdurdod Cynllunio Lleol na fydd y gwaith o ddatblygu'r safle arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu ar ddynodiad penodol **a rhywogaethau wedi ei ddiogelu. Yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac mewn ymgynghoriad gyda CCGC, mae gofynion cyfreithiol i gynnal asesiadau lefel prosiect lle mae effaith sylweddol yn bosib ar safleoedd Ewropeaidd. I gydymffurfio gyda'r gofynion hyn, ni chefnogir unrhyw ddatblygiad a allai gael effaith andwyol ar safle Ewropeaidd.** |

Fe fwriedir cyhoeddi 'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gyda'r polisi mabwysiedig a'r adroddiad AC/AAS.

Yn y Pwyllgor Gwaith ar y 30ain Dachwedd, 2010 fe addunwyd i wneud y newidiadau canlynol i'r polisi:

| **Rhan o'r Polisi i'w Ddiwygio** | **Geirfa yn yr Adroddiad Gwreiddiol i'r Cyngor Llawn** | **Argymhellion am Newid Pellach i'r polisi (geirfa ychwanegol mewn DU TRWM)** |
|---|---|---|
| Paragraff 18 (y frawddeg olaf) | "...Yn amodol ar gyfiawnhad trwy astudiaeth o ymarferoldeb, bydd y Cyngor yn ystyried creu cytundeb cyfreithiol ynglŷn â darparu'r tai fforddiadwy dros gyfnod o amser yn unol â chyflwr y farchnad bresennol." | "...Yn amodol ar gyfiawnhad trwy astudiaeth o ymarferoldeb, bydd y Cyngor yn creu cytundeb **106** cyfreithiol ynglŷn â..." |
| Paragraff 29 | "Ni fydd cydymffurfio gyda'r polisi hwn yn rhwystro'r Cyngor rhag ceisio sicrhau mantais gynllunio yn unol â'i CCA ar Ymrwymiadau Cynllunio a pholisi cynllunio cenedlaethol." | "**Fe fydd y Cyngor yn ceisio** mantais gynllunio yn unol â'i CCA..." |

**Argymhelliad: Bod y newidiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn y polisi a fabwysiedir gan y Cyngor.**